

## YMARFER 11: Sylwadau

Human beings are remarkably adaptable.<sup>1</sup> Over millennia they have spread across the globe to live in virtually every climate our planet has to offer<sup>2</sup>. But during the coming years humans will have to adapt further still.

There is substantial evidence that climate change is affecting many aspects of the world around us. Weather patterns are shifting, extreme weather is becoming more commonplace and temperatures in most parts of the world are rising<sup>3</sup>.

Floods across the UK in 2007 and the heatwave of 2003 are a stark illustration<sup>4</sup> of the devastating effects that extreme weather events can have<sup>5</sup>. During the summer of 2003 the heatwave resulted in over 2,000 excess deaths across England and Wales, and the 2007 floods caused by heavy rains led to 13 deaths and more than £3 billion pounds worth of damage to the UK infrastructure.

Although it cannot be said with certainty that these events were a direct consequence of climate change, such events are occurring more frequently, and they provide a glimpse of what could happen<sup>6</sup> in the future. For those in health protection<sup>7</sup>, planning for climate-related changes and, where possible, adapting to their likely effects, is critical.

As well as preparing for the health impacts of climate change, we can help prevent the worst of these impacts as urgent action to reduce individual and corporate carbon footprints continues<sup>8</sup>. We will then also reap the health benefits of a low-carbon society<sup>9</sup>, with cleaner air and more active, healthier lifestyles to help combat obesity, cancer and heart disease.

[addasiad o'r rhagair i adroddiad ar effeithiau iechyd  
newid yn yr hinsawdd ar wefan [www.gov.uk](http://www.gov.uk)]

## 1. Cywair

**Human beings are remarkably adaptable.**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *Mae'n rhyfedd fel y gall pobl addasu.*
2. *Mae bodau dynol yn addaswyr gwych.*
3. *Mae bodau dynol yn hynod addasadwy.*
4. *Mae bodau dynol yn hynod ymaddasol.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *Gall bodau dynol ymaddasu'n rhyfeddol.*
2. *Mae bodau dynol yn dda iawn am addasu.*
3. *Mae bodau dynol yn gallu addasu'n rhyfeddol.*

SYLWADAU:

1. '**...remarkably adaptable**' sydd wedi peri trafferth yn y frawddeg uchod. Wrth gyfieithu, mae temtasiwn weithiau i chwilio am un gair yn unig i gyfleu grym y gair gwreiddiol, megis '**adaptable**' yn yr achos hwn, ond mae ansoddeiriau megis *addasadwy* ac *ymaddasol* yn rhy lythrennol ac yn swnio'n chwithig iawn. Yn yr un modd mae *addaswyr* yn gyfieithiad trwsogl. Mae'r enghreifftiau o gyfieithu llwyddiannus wedi llwyddo i gyfleu'r ystyr gan ddefnyddio patrwm Cymraeg naturiol.

2. Mae *fel* yn enghraifft Afl.1 yn rhy anffurfiol a dylid defnyddio 'sut' mewn testunau ffurfiol eu cywair.

## 2. Cystrawen/ Cywair

**...to live in virtually every climate our planet has to offer.**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...i fyw dan bron bob amod hinsoddol sydd gan ein planed i'w chynnig.*
2. *...i fyw mewn bron a bod pob hinsawdd y mae'r blaned yn ei thaflu atom.*
3. *...gan fyw bron mewn pob math o hinsawdd ar y ddaear.*
4. *...i fyw ym mron pob hinsawdd mae ein planed yn gallu gynnig.*
5. *...yn byw, i bob pwrpas, ym mhob hinsawdd sydd gan ein planed i'w gynnig.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...i fyw bron â bod ym mhob hinsawdd sydd gan ein planed i'w gynnig.*
2. *...i fyw bron ym mhob hinsawdd sydd gan ein planed i'w chynnig.*

SYLWADAU:

1. Yr adferf '**virtually**' sydd wedi peri trafferth yn y frawddeg hon gan arwain at gystrawen wallus. Er bod *bron* neu *bron â bod* yn cyfleu'r ystyr yn gywir, mae safle'r adferf yn gallu bod yn broblem. Yn enghreifftiau Afl.2 ac Afl.3 mae angen 'yn' ac nid 'mewn' gan

fod yr arddodiad yn cyfeirio at enw penodol. O newid safle'r adferf, fel yn enghreifftiau Ll.1 a Ll.2, byddai hynny wedi gwella tipyn ar y gystrawen ac yn sicr wedi dangos bod angen *yn* yn lle *mewn*.

2. Er bod *i bob pwrpas* yn gallu golygu 'virtually' yr ystyr cywir yma yw 'yn agos i' sef 'bron' neu 'bron â bod'.

3. Nid yw *amod hinsoddol* yn enghraifft Afl.1 yn llwyddo i gyfleu'r ystyr ac mae *thafu atom* yn enghraifft Afl.2 yn rhy anffurfiol.

3. **Cystrawen/  
Cywair/** ...and temperatures in most parts of the world are rising.

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...a tymheredd yn codi yn rhan fwyaf y byd.*
2. *...a thymhereddau yn rhan fwyaf y byd yn codi.*
3. *...gyda'r tymheredd yn y rhan fwyaf o rannau'r byd yn codi.*
4. *...a tymheredd rhan fwyaf o'r byd ar gynnydd.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...a'r tymheredd yn y rhan fwyaf o'r byd yn codi.*
2. *...ac mae'r tymheredd yn y rhan fwyaf o'r byd yn cynyddu.*

SYLWADU:

1. Yn anaml y bydd angen lluosog 'tymheredd' yn Gymraeg ac mae *tymhereddau* yn swnio'n rhyfedd iawn yn y frawddeg hon. Mae'r enw unigol gyda'r fannod yn llawer mwy naturiol ac yn cyfleu'r ystyr yn gywir.

2. Yr ymadrodd cywir yn y fan hon ar gyfer '**most**' yw *y rhan fwyaf o*. Gan fod angen y gair 'rhan' ar gyfer '**most**' a '**parts**' bydd cyfieithwyr craff wedi sylwi ei bod yn ddigon dweud *yn y rhan fwyaf o'r byd* i gyfleu '**most parts of the world**' yn hytrach nag *y rhan fwyaf o rannau'r byd* (enghraifft Afl.3).

4. **Cywair/  
Ystyr** ...stark illustration...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...darlunio'n groyw...*
2. *...enghreifftiau llwm...*
3. *...dangos yn llwyr...*
4. *...darluniad llym...*
5. *...enghraifft lom...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...yn dangos yn glir...*
2. *...enghraifft blaen...*
3. *...darlun clir...*
4. *...enghreifftiau trawiadol...*

SYLW:

1. Mae'r enghreifftiau aflwyddiannus uchod yn dangos tuedd i orddibynnu ar y geiriadur a dewis unrhyw air a gynigir yno, heb ystyried y cyd-destun. Nid yw *groyw*, *llwyr* na *llym* yn llwyddo i gyfleu'r ystyr o gwbl. Mae angen i'r cyfieithydd gamu'n ôl ac ystyried gwir ystyr y gair '**stark**' cyn ei gyfieithu. Byddai thesawrws Saesneg o gymorth yn hyn o beth gan ei fod yn gallu cynnig geiriau tebyg eu hystyr yn Saesneg a allai eich helpu i gael hyd i'r gair Cymraeg sy'n cyfleu'r ystyr orau. Mae ansoddeiriau megis *clir*, *plaen* a *trawiadol* yn llawer mwy effeithiol.

5. **Cystrawen/  
Cywirdeb** ...the devastating effects that extreme weather events can have.

Cyfieithu Aflwyddiannus:

1. ...*yr effeithiau erchyll y gall tywydd eithafol ei gael.*
2. ...*yr effaith dinistriol y gall tywydd eithafol ei gael.*
3. ...*y dylanwad dychrynlyd mae digwyddiadau tywydd eithafol yn gallu cael.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. ...*yr effeithiau dinistriol y gall tywydd eithafol eu cael.*

SYLW:

1. Yn y tair enghraifft aflwyddiannus y broblem yw'r rhagenw mewnol o flaen 'cael'. Yn y cymal hwn mae 'cael' yn cyfeirio'n ôl at yr enw 'effaith/effeithiau'. Mae enghraifft Afl.3 wedi hepgor y rhagenw'n gyfan gwbl. Yn y ddwy enghraifft aflwyddiannus arall er bod rhagenw'n bresennol, dewiswyd yr un anghywir, o bosib oherwydd cred gamarweiniol ei fod yn cyfeirio'n ôl at 'tywydd'. Yn enghraifft Afl.1 mae angen y rhagenw 'eu' gan ei fod yn cyfeirio'n ôl at air lluosog sef 'effeithiau'. Yn yr ail enghraifft mae 'ei' (benywaidd) yn achosi treigladau llaes, nid treigladau meddal, gan ei fod yn cyfeirio'n ôl at 'effaith' sy'n air benywaidd. Y cwestiwn i'w ofyn mewn cymalau fel hyn yw at beth y mae'r berfenw yn cyfeirio ac felly pa ragenw sydd ei angen. Gellir cael rhagor o eglurhad ynghylch hyn yn *Y Golygiadur*, Rhiannon Ifans, tt. 302-303.

6. **Cystrawen/  
Cywirdeb** ...a glimpse of what could happen...

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. ...*cipolwg o beth y gallai ddigwydd...*
2. ...*cipolwg o'r hyn y gall ddigwydd...*
3. ...*cipolwg ar yr hyn a allai digwydd...*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. ...*cipolwg ar yr hyn a allai ddigwydd...*

SYLWADAU:

1. Mae'r rhagenw perthynol bob amser yn peri trafferth i rai

cyfieithwyr. Sylwer mai *a* yw'r rhagenw perthynol cywir i'w ddefnyddio yn y frawddeg hon: *beth a allai ddigwydd* neu *yr hyn a allai ddigwydd*. Mae adran ddefnyddiol iawn ynghylch y rhagenw perthynol yn *Y Golygiadur*, Rhiannon Ifans, tt. 300—302 sy'n esbonio'n glir iawn pa ragenw perthynol y dylid ei ddefnyddio bob tro.

2. Sylwer hefyd yn enghraifft Afl.3 nad yw'r cyfieithydd wedi cofio treiglo'r berfenw *digwydd* ar ôl y ffurf gryno.

3. Mae'n bwysig sicrhau bod amser y ferf yn gywir ym mhob brawddeg. Yn y cymal uchod mae enghraifft Afl.2 wedi drysu rhwng y ffurf amherffaith a'r ffurf bresennol. *...a allai* sy'n gywir gan fod '**could**' yn awgrymu rhyw ansicrwydd ynghylch y weithred.

## 7. Ystyr

### For those in health protection...

#### Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...sy eisiau gofal iechyd...*
2. *...i'r rheiny sydd o dan ofal meddygol...*
3. *...y rheiny sydd o dan warchodaeth iechyd...*
4. *...mewn amddiffyniad iechyd...*

#### Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...sy'n gweithio ym maes diogelu iechyd...*

#### SYLW:

1. Yn unol â'r cyngor a roddwyd ar dudalen flaen y papur arholiad ychwanegodd sawl ymgeisydd droednodyn i egluro y byddent wedi gwirio'r term hwn ar y we. Fodd bynnag, wrth ystyried y darn cyfan a'r maes dan sylw roedd digon o wybodaeth i helpu'r ymgeisydd i ddeall mai'r rhai sy'n gweithio ym maes diogelu iechyd yw'r ystyr yn hytrach na'r rhai sy'n derbyn gofal iechyd.

## 8. Ystyr/ Cystrawen/ Cywair/ Cywirdeb

**...we can help prevent the worst of these impacts as urgent action to reduce individual and corporate carbon footprints continues.**

#### Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...gallwn helpu i rwystro'r gwaethaf o'r effeithiau wrth barhau gyda champau pwysig i leihau olion traed carbon unigolion a chorfforaethau.*
2. *...gallwn ni helpu i atal yr effeithiau gwaethaf drwy barhau i gymryd camau brys i leihau ôl troed carbon unigol a chorfforaethol.*
3. *...gallwn helpu i atal y gwaethaf o'r effeithiau hyn fel gweithredu brys i leihau ôl-troed carbon unigol a chorfforaethol.*
4. *...gallwn helpu i rwystro'r gwaethaf o'r effeithiau hyn gan fod ymateb brys i leihau olion traed carbon unigolion a chorfforaethol yn parhau.*
5. *...fe allwn roi cymorth i rwystro'r gwaethaf o'r dylanwadau hyn*

*fel y mae gweithred dwys i leihau ôl troed carbon yn unigol ac i gwmnïau yn cario mlaen.*

6. *...gallwn helpu i rwystro nodweddion gwaethaf yr effeithiau hyn hefyd, wrth i gorfforaethau ac unigolion barhau i gymryd camau brys i leihau eu hól troed carbon.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...gallwn ni helpu i atal yr effeithiau gwaethaf wrth i gamau brys i leihau ôl traed corfforaethol ac unigol barhau.*

SYLWADAU:

1. Mae perygl yma i gyfieithu **'the worst of these impacts'** yn rhy slafaid. Y ffordd symlaf a mwyaf naturiol yw'r enghraifft o gyfieithu llwyddiannus, sef *yr effeithiau gwaethaf*. Mae *rwystro nodweddion gwaethaf yr effeithiau hyn* (Afl. 6) yn newid yr ystyr braidd ac yn osgoi cyfieithiad llawer symlach.

2. Mae'r ail ran yn eithaf heriol o ran ystyr ac mae angen ei darllen fwy nag unwaith er mwyn ei deall yn iawn. Mae pob un o'r enghreifftiau aflwyddiannus wedi camddeall y Saesneg ac felly wedi camgyfieithu'r frawddeg. Nid *ni* sy'n parhau i gymryd camau brys nac ychwaith *gorfforaethau ac unigolion* gan nad yw'n nodi pw sy'n cymryd camau brys. Hefyd 'wrth' yw'r arddodiad cywir i gyflwyno'r cymal hwn yn hytrach na *gan*, *drwy* neu *fel* sydd wedi ystumio'r ystyr.

3. Sylwer hefyd yn Afl.5 fod *gweithred* wedi cael ei drin fel gair gwrywaidd ac o ganlyniad bod dau dreigladr ar goll: 'y weithred ddwys' fyddai'n gywir. Mae'n bwysig gwirio cenedl geiriau i osgoi gwallau cywirdeb fel hyn.

4. Nid yw *cario mlaen* yn Afl.5 yn dderbyniol mewn darn ffurfiol ei naws.

9. **Cywair/  
Cystrawen**

**...reap the health benefits of a low-carbon society...**

Cyfieithu aflwyddiannus:

1. *...yn buddio o gymdeithas sy'n isel mewn carbon*
2. *...mwynhau'r manteision iechyd o fod yn gymdeithas sydd â charbon isel*
3. *...fedi buddion iechyd cymdeithas garbon isel.*
4. *...medi'r buddiannau iechyd mewn cymdeithas garbon-isel*
5. *...elwa buddion iechyd sy'n deillio o gymdeithas carbon-isel.*

Cyfieithu llwyddiannus:

1. *...elwa ar y manteision iechyd sydd ynghlwm wrth fyw mewn cymdeithas carbon isel*

SYLWADAU:

1. Mae'r cymal bach hwn yn un lletchwith a allai faglu sawl un, yn enwedig yr ymadrodd **'reap the benefits'**. Nid yw *buddio* (Afl.1) yn air cyfarwydd yn y Gymraeg ac mae *medi* (Afl.3 a 4) yn rhy lythrennol. Mae *elwa ar y manteision* yn yr enghraifft o gyfieithu

llwyddiannus yn cyfleu'r ystyr mewn modd effeithiol a chynnil ond noder yn enghraifft Afl.5 fod yr arddodiad 'ar' wedi'i hepgor ar ôl y berfenw 'elwa'. Mae'r llyfryn *Pa Arddodiad* gan D. Geraint Lewis yn gallu bod o gymorth mawr wrth ddewis yr arddodiad cywir.

2. Mae'r term *carbon isel* yn ddigon cyfarwydd yn Gymraeg erbyn hyn gan fod newid yn yr hinsawdd yn bwnc llosg sy'n cael llawer o sylw yn y cyfryngau ond eto cafwyd nifer o gynigion aflwyddiannus megis *isel mewn carbon* ac *â charbon isel*. Mae hyn yn dangos mor bwysig ydyw ymgysylltu â therminoleg meysydd cyfoes, er enghraifft drwy wyllo/darllen y newyddion Cymraeg a darllen erthyglau Cymraeg perthnasol.

3. Yn enghraifft Afl. 3 noder er bod 'cymdeithas' yn enw benywaidd nad oes angen treiglo 'carbon' yn feddal ar ei ôl gan fod y cysylltiad rhwng 'carbon' ac 'isel' yn gryfach na'r cysylltiad â'r enw benywaidd. Gweler *Y Golygiadur*, Rhiannon Ifans, tt. 382-386.

4. Aeth y gair '**health**' ar goll mewn ambell gyfieithiad hefyd sy'n effeithio ar ystyr y frawddeg hon. Cofiwch ddarllen dros eich gwaith yn fanwl iawn a sicrhau bod pob elfen wedi'i chynnwys ym mhob brawddeg oherwydd y geiriau bach sy'n tueddu i fynd ar goll.

## CYFFREDINOL

\* **Cywirdeb** Cafwyd llawer o wallau sillafu a gwallau teipio:

- *gydag air glanach*
- *mai tywydd eithafol yn fwy cyffredin*
- *ymledi*
- *yn pery i*
- *cip olwg*

### SYLW:

Byddai gwirydd sillafu wedi tynnu sylw at lawer o'r rhain.

**Cywirdeb** Cafwyd sawl enghraifft o gamdreiglo hefyd:

- *awyr glanach*
- *yn fwyfwy reolaidd*
- *effaith dinistriol*
- *fath digwyddiadau*
- *enghraifft clir*
- *dros miloedd*

### SYLW:

Mae'n bwysig iawn ichi olygu eich gwaith yn fanwl a chaniatáu digon o amser i wneud hynny. Hefyd mae argraffu'r cyfieithiad a'i ddarllen yn ofalus ochr yn ochr â'r fersiwn gwreiddiol yn gallu eich helpu i sylwi ar wallau o ran cywirdeb.